

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	8 Mehefin 2016
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
SWYDDOG CYSWLLT:	Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706433
TESTUN:	Polisi Arfaethedig Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.2 Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Trwyddedu am ganlyniadau'r ymgynghoriad ynglŷn â Pholisi Arfaethedig Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 Yn y Pwyllgor Trwyddedu ym Mis Rhagfyr 2015 cymeradwyodd Aelodau Swyddogion i gychwyn ymgynghori ffurfiol gyda'r masnachwyr, y cyhoedd sy'n teithio a chyrrff cynrychioliadol eraill, ac i adrodd yn ôl ynglŷn â'r canlyniadau mewn cyfarfod arall.

3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

- 3.1 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847

4. GWYBODAETH GEFNDIR

- 4.1 Rydym yn credu bod tacsis yn rhan hanfodol o'r system cludiant cyhoeddus ac yn rhan o seilwaith ein cymdeithas. Ychydig o bobl yn unig sydd heb ddefnyddio gwasanaeth tacsï at ryw bwrpas ar ryw adeg, boed at ddefnydd busnes, domestig neu gymdeithasol. Mae cymdeithas yn cymryd darpariaeth gwasanaeth o'r fath, boed yn hurio preifat neu gerbyd hacni, yn ganiataol ac yn disgwyl y bydd y daith yn ddiffwdan. Credwn mai dyna'n union fel y dylai fod a bod teithwyr tacsï eisiau gwasanaeth effeithiol effeithlon a dibynadwy sydd yn saff a diogel.

- 4.2 Mae Swyddogion yn cydnabod bod llawer o ddeiliaid trwydded sy'n gweithio'n galed o fewn y diwydiant, sydd yn falch o'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu. Fodd bynnag, mae unrhyw wasanaeth i'r cyhoedd

yn gallu bod yn darged posib i'r rhai llai cydwybodol o fewn ein cymdeithas. Gallai hyn gynnwys y rheiny a allai ddefnyddio eu safle i ecsbloetio'r cyhoedd sy'n teithio er enghraifft drwy hawlio mwy na'r gost gyfreithiol neu drwy gamddefnyddio eu teithwyr neu eu heiddo (e.e. wrth gludo unigolion fel plant neu ferched ar eu pennau eu hunain).

- 4.3 Fodd bynnag rydym yn sylweddoli, er bod angen trwyddedu'r diwydiant tacsis a hurio preifat er mwyn gwarchod y cyhoedd rhag y rhai llai cydwybodol, gallai ymagwedd rhy gyfyngol weithio yn erbyn budd y cyhoedd. Gallai hyn greu rhwystrau i'r diwydiant, gan gyfyngu gwasanaethau tacsis, ac o ganlyniad, achosi goblygiadau diogelwch (e.e. golygu nad oes dim digon o dacsis i gludo unigolion dan fygythiad adref yn ddiogel). Rydym felly am sicrhau bod ein holl anghenion trwyddedu yn gyfiawn ac yn gymesur â'r risgiau yr ydym am eu trin a bod y costau a ysgwyddir yn gymesur â'r buddion.
- 4.4 I atgoffa Aelodau, mae adolygiad llawn o Bolisi presennol Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat wedi ei gwblhau, (gan gynnwys manyleb ac amodau) Roedd hyn yn cynnwys dau sesiwn gweithdy lle bu Aelodau Etholedig a Gwasanaethau Fflyd a'r diwydiant tacsis yn cymryd rhan, ac yna rhoddwyd cyflwyniad gan y Gwasanaethau Fflyd i'r Pwyllgor Trwyddedu.
- 4.5 Canlyniad y broses adolygu oedd drafftio'r Polisi Cerbydau Hacni a Hurio Preifat, a aeth allan i ymgynghori ym mis Ionawr eleni. Gellir gweld copi o'r cynnig a aeth allan i ymgynghori yn Atodiad A, er gwybodaeth i Aelodau.

5.

YMGYNGHORI

5.1

Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori o 8 wythnos rhwng Ionawr a Mawrth. Cysylltwyd â phob aelod o'r diwydiant (gyrwr/perchnogion/gweithredwyr) a rhoddwyd cyfle iddynt weld y ddogfen Polisi drafft unai ar-lein drwy ddarparu dolennau neu gopi caled, a chawsant eu hannog i gynnig sylwadau. Ymgynghorwyd gyda chyrrff cynrychioliadol hy Grwpiau Anabledd, Cynghorau Tref a Chymuned ayb hefyd gyda datganiad yn y wasg a dolenni ar y cyfryngau cymdeithasol.

5.2

Derbyniwyd cyfanswm o 10 ymateb ac mae crynodeb o'r rheiny ar gael yn Atodiad B. Mae fersiynau a olygwyd o'r ymatebion llawn ar gael yn Atodiad C.

5.3

Mae'n ddiddorol nodi bod y rhan fwyaf o ymatebion i'r polisi wedi bod yn rhai cadarnhaol. Mewn gwirionedd yr unig faes lle nad yw pawb wedi bod yn gyfûn yw y gofyniad lliw ar gyfer Cerbydau Hacni a'r gofyniad i

gerbydau Hacni fod yn 3 oed ac i gerbydau hurio preifat fod yn 5 oed.

- 5.4 Cynigir felly bod ystyriaeth bellach yn cael ei roi i'r polisi hwn, yn arbennig o safbwynt y meysydd sy'n ymwneud ag oedran a lliw'r cerbydau a'r defnydd o drelars. Cyfeirir Aelodau at Atodiad D ac fe'u cynghorir i gymryd i ystyriaeth y dewisiadau a awgrymir er mwyn eu cynorthwyo yn eu hystyriaethau, yn ogystal ag unrhyw opsiwn arall y gallai Aelodau eu nodi.

6.

ARGYMHELLION

6.1

Os yw Aelodau o blaid cyrraedd cytundeb ar unrhyw newidiadau i'r polisi eu bod yn rhoi cyfarwyddyd i swyddogion newid y polisi fel bo'r angen.

6.2

Y dylai Aelodau i roi cyfarwyddyd i swyddogion i ymgynghori ymhellach gyda phartïon sydd â diddordeb ac i gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau a dderbyniwyd yn fersiwn olaf y polisi a geir eu cyflwyno yn un o gyfarfodydd y Cyngor Sir yn y dyfodol.